CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL TALYBONT

4.00 – 5.10 PM, 02 RHAGFYR, 2021

Yn bresennol (drwy Teams):	Bethan Davies (Cadeirydd), Helen Ovens, Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Y Cynghorydd Rhian Evans, Trish Huws, Cathryn Lloyd-Williams, Siwan Evans, Llio Rhys, Hefin Jones.
	Pauline Lucas (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
1	**CYFANSODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHOL:**		
	Nodwyd y canlynol: Roedd cyfnod Bethan Davies fel Llywodraethwr Cymunedol yn dod at ei derfyn; Roedd cyfnod Eirian Evans fel Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol yn dod at ei derfyn. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** nodi'r canlynol: Ni fydd Eirian Evans yn parhau fel Llywodraethwr a byddai'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn yn siarad ag unigolyn a enwyd i weld os oes ganddo / ganddi ddiddordeb mewn ymgymryd â'r rôl; Byddai Bethan Davies yn parhau am gyfnod arall o 4 blynedd.		EapG
2	**DATGAN BUDDIANT / CYFRINACHEDD / EGWYDDORION YMDDYGIAD:** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:		
	a)	yr angen i ddatgan buddiant o dan bob eitem ar yr agenda neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod. Byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi;	
	b)	bod y materion a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol hyd nes y caiff y cofnodion eu cymeradwyo ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus;	
	c)	yr Egwyddorion Ymddygiad, a lofnodwyd wrth enwebu person i rôl Llywodraethwr ac a oedd ar gael ar Teams i gyfeirio atynt.	
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod.		
2ii	**PENODI CADEIRYDD:**		
	PENDERFYNWYD penodi Bethan Davies yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	2021/2022.	
2iii	**PENODI IS-GADEIRYDD:**	
	PENDERFYNWYD penodi Cathryn Lloyd Williams yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2021/2022.	
2iv	**COFNODION:**	
	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24.06.2021 a byddant yn cael eu harwyddo rywbryd eto. (Yn sgil cyfyngiadau COVID-19.)	
2v	**MATERION YN CODI O'R COFNODION:**	
	Cofnod 7a) Traffig y Tu Allan i'r Ysgol: Anfonwyd llythyron at Weinidogion y Llywodraeth gan y Llywodraethwyr a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Ben Lake, yr Aelod Seneddol, ac Elin Jones, Aelod o'r Senedd. Roedd gwaith yn cael ei wneud ar y ffordd ar hyn o bryd. Roedd yr arwyddion 20mya y tu allan i'r ysgol yn gweithio ar hyn o bryd ac yn cael eu monitro'n agos. Byddai man croesi y tu allan i'r ysgol yn cael ei groesawu. Byddai Ellen ap Gwynn yn cyfarfod â Lee Waters, Aelod o'r Senedd, i drafod y sefyllfa a bydd yn adrodd nôl i'r Aelodau.	
2vi	**COFNODION Y PWYLLGORAU:**	
	PENDERFYNWYD nodi'r canlynol: Rhoddwyd y ffurflen monitro cyllid ar Teams er gwybodaeth. Cynhaliwyd cyfarfod i drafod cyllid â swyddogion yr Awdurdod Lleol. Roedd y sefyllfa ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn edrych yn dda gydag opsiynau ar gael a derbyniwyd nifer o grantiau. **Adeiladau, Iechyd a Diogelwch:** Bydd yr archwiliad yn cael ei gwblhau yn ystod y tymor gan y Pennaeth a Cathryn Lloyd Williams. **Staffio a Phersonél:** Roedd Miss Angharad a Jack Williams wedi gadael eu swyddi. Penodwyd aelodau staff newydd a byddant yn cychwyn ym mis Ionawr 2022. Diolchwyd i Bethan Davies a Trish Huws am eu rhan yn y broses benodi. **Llesiant:** roedd llesiant wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol ac roedd cynlluniau ar waith er mwyn gwneud cynnydd yn y maes hwn. **Pwyllgor Tâl:** Cyfarfu'r Aelodau ar 21 Medi i drafod Cyflogau Staff. Anfonwyd llythyr at yr holl staff i ddiolch iddynt am eu gwaith caled ac ymroddiad yn ystod cyfnod anodd. Roedd y staff yn gwerthfawrogi'r llythyr.	
2vii	**PWYLLGORAU'R CORFF LLYWODRAETHOL:**	
PENDERFYNWYD penodi Aelodaeth y Pwyllgorau fel a ganlyn a mabwysiadu'r ddogfen ynghylch		

yr Amodau Gorchwyl a'r Egwyddorion Ymddygiad a oedd ar gael ar Teams o flaen llaw:

Disgyblu a Diswyddo Staff	
Cyfarfod Cyntaf	**Apêl**
2 Riant-lywodraethwr, Llywodraethwr Cymunedol	Yr Is-gadeirydd, Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol, Rhiant-lywodraethwr

Disgyblu a Gwahardd Disgyblion
Y Cadeirydd, Llywodraethwr Cymunedol, Rhiant-lywodraethwr

Dethol Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid
3-7 Aelod yn ôl yr angen

Rheoli Perfformiad Penaethiaid	
Cyfarfod Cyntaf	**Apêl**
Y Cadeirydd, Trish Huws	Yr Is-gadeirydd, Helen Ovens

Adolygu Tâl	
Cyfarfod Cyntaf	**Apêl**
Y Cadeirydd, Trish Huws, Rhian Evans	Yr Is-gadeirydd, Ellen ap Gwynn, 1 Aelod

Cwynion
Yr Is-gadeirydd, Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol, Rhiant-lywodraethwr

Cwynion Cyflogaeth Staff	
Cyfarfod Cyntaf	**Apêl**
Yr Is-gadeirydd, 2 Aelod	3 Aelod

Medrusrwydd Penaethiaid	
Cyfarfod Cyntaf	**Apêl**
Ellen ap Gwynn, Bethan Davies, 1 Aelod	Rhian Evans, Trish Huws, Helen Ovens

Cyllid
Y Corff Llywodraethol Llawn

Safonau, Perfformiad a'r Cwricwlwm
3 Aelod

Eiddo, Adeiladau, Iechyd a Diogelwch
2 Aelod, Cathryn Lloyd Williams

Staffio a Phersonél	
Cyfarfod Cyntaf	**Apêl**
Aelodau yn ôl yr angen	Aelodau yn ôl yr angen

Llesiant
Y Pennaeth, Trish Huws, 2 Aelod

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:	Gweithredir gan*:

Ymgysylltu â'r Gymuned

Y Pennaeth, 3 Aelod

2viii	**CYFRIFOLDEBAU'R LLYWODRAETHWYR:**	

PENDERFYNWYD penodi'r Llywodraethwyr canlynol i fod yn gyfrifol am y meysydd canlynol:

Amddiffyn Plant	Bethan Davies	*
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Trish Huws	*
Y Cytundeb Llwyth Gwaith	Ellen ap Gwynn	
Hyfforddiant – Cynefino – Fforwm	1 Aelod	
Rhianta Corfforaethol	Bethan Davies	
Chwythu'r Chwiban	Cathryn Lloyd Williams	
Presenoldeb	Rhian Evans	
E-Ddiogelwch – GDPR – HWB	Helen Ovens	*
CYFRIFOLDEBAU'R CWRICWLWM:		
Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu	1 Aelod	
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Cathryn Lloyd Williams	
Y Dyniaethau	Helen Ovens	
Y Celfyddydau Mynegiannol	Trish Huws	
Mathemateg a Rhifedd	Siwan Evans	
Iechyd a Llesiant	Trish Huws	
Addysg Grefyddol	Bethan Davies	

* Angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

2ix	**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I'R RHIENI 2020-2021:**	
	Nodwyd bod yr adroddiad ar Teams er gwybodaeth a bydd hefyd yn mynd ar y wefan. Diolchwyd i riant am greu'r wefan.	
3i	**ADRODDIAD Y PENNAETH:**	
	Roedd copi o adroddiad y Pennaeth (gyda phenawdau diwygiedig oherwydd materion yn ymwneud â COVID-19) ar gael i'r Aelodau ar Teams o flaen llaw. Cafwyd trafodaeth am y materion canlynol:	
	a) Bydd monitro'n digwydd yn ystod tymor y gwanwyn gan ddilyn prosesau Sicrhau Ansawdd yr ysgol; Roedd pwyslais ar lesiant staff a disgyblion; Parheir i lynu at y canllawiau'n ymwneud â COVID-19, gyda'r staff yn gwisgo masgiau a'r staff a rhieni yn cadw pellter cymdeithasol. Parheir i sicrhau cyn lleied â phosib o gymysgu rhwng dosbarthiadau; Byddai'r Aelodau'n cael gwahoddiad i gyfarfod â rhai o'r disgyblion dros Teams cyn diwedd tymor yr hydref; Diolchwyd i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u hamynedd; Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon dros Teams	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
		ac roedd llawer yn bresennol; Diolchwyd i'r staff am eu hymroddiad ac am addasu mor gyflym ac effeithlon i ffordd newydd o weithio; Roedd y disgyblion yn hapus ac wedi ymgynefino'n dda yn eu dosbarthiadau newydd; Mae'r 22 disgybl sydd ar gofrestr ADY yr ysgol yn derbyn ymyrraeth bwrpasol; Ni adroddwyd am unrhyw achosion o fwlio yn ystod y tymor blaenorol ac atgyfeiriwyd un achos at y Gwasanaethau Cymdeithasol.	
3ii	**DEILIAID ALLWEDDI'R YSGOL:**		
	Roedd y Pennaeth eisoes wedi cael rhestr o ddeiliaid allweddi'r ysgol. **PENDERFYNWYD** nodi na fu unrhyw newidiadau i'r manylion.		
3iii	**GWISG YSGOL:**		
	Ailgylchir gwisg ysgol ac roedd gan yr ysgol gyflenwad da. Byddai'r staff, y Cyngor Ysgol a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn trafod y ffordd ymlaen.		
4	**HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:**		
	Nodwyd bod hyfforddiant ar-lein yn parhau a chynhelir Fforwm y Llywodraethwyr bob tymor dros Zoom. Roedd y Cadeirydd yn mynd i'r Fforwm ac yn adrodd nôl i'r Aelodau. Cafwyd trafodaeth ynghylch faint o hyfforddiant yr oedd disgwyl i staff ei wneud ar ôl oriau ysgol. Nodwyd bod y sefyllfa wedi gwella.		
5i	**POLISÏAU – POLISÏAU STATUDOL (Gan ddilyn amserlen yr Awdurdod Lleol):**		
	Amddiffyn Plant Rheoli Perfformiad **l'w hadolygu os bydd newidiadau wedi digwydd:** Codi Tâl Cwynion (i'w gyhoeddi ar wefan yr ysgol) Y Cwricwlwm Diogelu Data Iechyd a Diogelwch Disgyblu Disgyblion (a Gwrth-fwlio) Addysg Rhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol Y Weithdrefn ar gyfer Disgyblu, Ymddygiad, Medrusrwydd Staff ac Achwyniadau Rheoli Straen		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
	Byddai'r Cadeirydd a'r Pennaeth yn adolygu'r polisïau.		
5ii	**POLISI DERBYN 2022-2023:**		
	Rhoddwyd copi o'r polisi ar Teams er gwybodaeth. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r polisi.		
5iii	**CYTUNDEB PARTNERIAETH 2021-2024:**		
	Rhoddwyd copi o'r cytundeb partneriaeth ar Teams er gwybodaeth. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r cytundeb.		
6	**UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD O FLAEN LLAW:**		
	a)	Adroddodd y Pennaeth ei fod yn rhan o grŵp sy'n gweithio gydag ysgolion eraill ar brosiectau amrywiol. Mae 7 ysgol ar draws y sir yn rhan o hyn ac mae Ysgol Talybont yn gweithio'n agos ag un ysgol arall.	
	b)	Nodwyd y cynhelir cyfarfod i drafod Rheoli Perfformiad y Pennaeth ddydd Mawrth 7 Rhagfyr am 4.00pm.	
7	**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**		
	PENDERFYNWYD nodi'r canlynol: Cynhelir cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol Llawn ar 23.03.2022; Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddod i'r cyfarfod ac am gefnogi'r ysgol. Dymunodd Nadolig Llawen i bawb.		

PL
09.12.2021